

Pyllau gorlifdir yng Ngheredigion, Cymru



PROSIECT 50 MLYNEDD I GREU RHWYDWAITH O BYLLAU DŴR GLÂN AR GYFER BYWYD GWYLLT DŴR CROYW

Cefndir

- Nod y prosiect oedd creu pyllau ar orlifdir nant Afon Clettwr er mwyn darparu cynefin ar gyfer y dyfrgi – sy'n nodwedd a enwir yn y SoDdGA hwn. Mae pyllau yn darparu lloches i ddyfrgwn bach adeg llif uchel, ac mae amffibiaid yn ffynhonnell dda o fwyd ar gyfer dyfrgwn ifanc a dyfrgwn sydd yn eu llawn dwf.
- Crëwyd y chwe phwll ar dir preifat a gaiff ei bori'n ysgafn gan ferlod y tiffeddiannwr.
- Roedd y prosiect yn ganlyniad cydweithredu rhwng tiffeddiannwyr preifat ac Ymddiriedolaeth Afonydd Teifi, ac fe'i cefnogwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Prosiect Miliwn o Byllau.



Lluniau © 2012 Bluesky, Infoterra Ltd a COWI A/S, DigitalGlobe, GeoEye, Geomapping plc, Data mapiau © 2012 Google

Pwyntiau Allweddol

Mae'r prosiect hwn yn dangos sut y gall creu pyllau gorlifdir:

- Wella heterogenedd gorlifdir
- Darparu cynefin ar gyfer dyfrgwn
- Bod yn broses syml



Dyfrgi (*Lutra lutra*)


Gall amffibiaid mewn pyllau ddarparu ffynhonnell werthfawr o fwyd ar gyfer dyfrgwn.

Ffigur 1. Llun o'r awyr o'r ardal yng Ngheredigion, sy'n dangos lleoliad amaethyddol dwysedd isel. Yn yr ardal hon, caiff y tir ei bori gan dda byw a'i ddefnyddio i gynhyrchu gwair a silwair yn bennaf. Mae llinell las o amgylch ardal y prosiect.

Bodloni meini prawf y Prosiect Miliwn o Byllau

- **Dŵr glân** – mae'r pyllau mewn dalgylch dwysedd isel lle nad oes cemegolion na gwrtaith amaethyddol. Dim ond ar adegau prin y bydd y nant yn gorlifo.
- **Dim byd yn cael ei ychwanegu atynt** – ni chafodd unrhyw blanhigion, dŵr nac uwchbridd eu hychwanegu at y pyllau, a gadawyd i'r pyllau gael eu cytrefu'n naturiol.
- **Dim byd i aflonyddu arnynt** – mae'r pyllau ar dir preifat nad oes gan y cyhoedd fynediad iddo.
- **Egwyddorion dylunio** – cafodd y pyllau eu dylunio i fod yn fach ac yn fas er mwyn darparu cynefin bridio da ar gyfer amffibiaid – a ffynhonnell dda o fwyd ar gyfer dyfrgwn hefyd felly.

Map bras



Ffigur 2. Map bras o'r ardal

Cynllunio a pharatoi

- Roedd pwll presennol heb ei leinio a oedd wedi'i greu gan y tiffeddiannwr yn dal dŵr gydol y flwyddyn, ac roedd hynny'n awgrymu y byddai'r pyllau newydd yn dal dŵr hefyd.
- Gan fod y pyllau ar orlifdir, nid oedd modd gwasgaru'r rwbel yn yr ardal gyfagos. Yn hytrach, cafodd y rwbel ei ollwng a'i wasgaru'n denau uwchlaw'r gorlifdir ar gae cyfagos a gaiff ei bori ac sy'n eiddo i'r tiffeddiannwr. Roedd cadw'r rwbel ar y safle yn fwy syml a chost-effeithiol na chael trwydded gan Asiantaeth yr Amgylchedd i'w symud i rywle arall.
- Bu ecolegydd y sir yn archwilio'r safle i weld a oedd unrhyw nodweddion o ddiddordeb biolegol yn bresennol eisoes. Mae cynnal archwiliad o'r fath ymlaen llaw yn bwysig.

Adeiladu

- Cymerodd y gwaith o gloddio a gwasgaru'r rwbel 5 diwrnod i'w gwblhau ym mis Medi 2011.
- Defnyddiwyd peiriant cloddio 8 tunnell â thraciau a braich hir. Diben hynny oedd achosi cyn lleied o ddifrod ag sy'n bosibl i'r ardal gyfagos a chynorthwyo i roi'r rwbel yn y cerbyd dadlwytho er mwyn ei symud i'r cae cyfagos.
- Adeiladodd y tiffeddiannwr wâl ar gyfer dyfrgwn hefyd i'w gosod wrth ymyl y pwll mwyaf unig, er mwyn annog y rhywogaeth i gytrefu'r safle. Yn ogystal, gosodwyd ffens rhwng y pwll hwn a'r da byw er mwyn lleihau aflonyddwch a denu dyfrgwn yno.

Pwll	Dyfnnder (m)	Hyd (m)	Lled (m)	Arwynebedd (m ²)
1	1.00	10	8	64
2	1.00	8	4	26
3	0.75	9	5	36
4	0.50	4	4	13
5	0.40	9	5	36
6	0.30	5	4	16



©Geoff Liles



©Geoff Liles



Ffigur 3. Ar y chwith: Peiriant cloddio â thraciau yn adeiladu'r pyllau, a cherbyd dadlwytho'n cael ei ddefnyddio i symud y rwbel oddi yno. Ar y dde: Cafodd y rwbel ei wasgaru mewn pant yn y cae cyfagos a gaiff ei bori gan nifer fach o dda byw.

Cost a chyllid

- Cyfanswm yr amser a dreuliodd Swyddog Pyllau yn paratoi ac yn goruchwyllo'r gwaith cloddio oedd 3 diwrnod, yn ogystal â 4 diwrnod gan gadwraethwr o Ymddiriedolaeth Afonydd Teifi.
- Cyfanswm cost cloddio'r chwe phwll a chael gwared ar y rwbel oedd £3,360 gan gynnwys TAW, h.y. £560 y pwll – sef tua'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y Prosiect Miliwn o Byllau.
- Talwyd costau'r gwaith cloddio â grant gan Biffaward drwy Gronfa Cloddio Pyllau'r Prosiect Miliwn o Byllau.

©Geoff Liles



©Geoff Liles



Ffigur 4. Ar y chwith: Pyllau wedi'u hadeiladu ar hyd Nant Einon (Ilinell las). Ar y dde: Mae'r lluniau yn dangos pyllau'n dal dŵr ychydig fisoedd ar ôl eu creu. Roedd yn bwysig cael pyllau bach a bas er mwyn denu amffibiaid sy'n bridio.

Problemau ac atebion

Roedd y prosiect wedi'i gynllunio'n dda, ac ni ddaethpwyd ar draws unrhyw broblemau wrth ei gwblhau.

Canlyniad a gwaith monitro

- Roedd y prosiect yn llwyddiannus o safbwynt cyrraedd ei nodau: roedd amffibiaid yn bridio yn y pyllau ychydig fisoedd yn unig ar ôl eu hadeiladu. Erbyn mis Chwefror, cyfrifwyd dros 100 clwstwr o riffet brogaid yn y pyllau newydd!
- Mae'r tiffeddianwyr yn fodlon iawn â'r pyllau, ac maent wrthi'n cofnodi'r amffibiaid a gweision y neidr sydd wedi eu cytrefu.
- Bydd y tiffeddianwyr hefyd yn monitro gwâl y dyfrgwn, ac maent yn gobeithio gosod camera is-goch ar gyfer gwyllo bywyd gwylt yno.
- Bydd y pyllau'n cael eu defnyddio fel safle arddangos ar gyfer prosiect addysg am fywyd gwylt i ysgolion, a gaiff ei redeg gan Ymddiriedolaeth Afonydd Teifi (<http://www.teifiriverstrust.com/>).



©Geoff Liles

Ffigur 5. Gwâl artiffisial ar gyfer dyfrgwn, a adeiladwyd gan y tiffeddianwr er mwyn denu dyfrgwn sy'n nythu. Ceir siambrau ar wahân y tu mewn a ddefnyddir gan y dyfrgwn i fridio.

Rheoli yn y dyfodol

- Nid oes angen unrhyw waith rheoli ar y safle ar wahân i ryw faint o bori ysgafn gan dda byw'r tiffeddianwr er mwyn atal prysgoed rhag tyfu dros y tir.

I gael rhagor o wybodaeth am y Prosiect Miliwn o Byllau ac i weld taflenni ffeithiau eraill yn y Pecyn Cymorth Creu Pyllau, ewch i www.pondconservation.org.uk/millionponds neu e-bostiwch eich ymholiadau i'r cyfeiriad canlynol: info@pondconservation.org.uk



Pond Conservation
For life in fresh waters